



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

## **Cais am dystiolaeth ynglŷn ag Adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r Cydbwysedd Cymwyseddau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd – Adroddiad Amaethyddiaeth**

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r cyfraniadau a wnaed gan y staff hynny o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gymerodd ran yn adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, "Cydbwysedd Cymwyseddau'r UE", mewn perthynas ag Amaethyddiaeth. Cynhaliwyd seminar ar y pwnc hwn dan arweiniad Defra ym Mharc Cathays ar 3<sup>ydd</sup> Rhagfyr. Nid yw'r sylwadau isod wedi'u bwriadu fel ymateb cynhwysfawr CNC i ymgynghoriad Defra, ond fe'u bwriadwyd i ddarparu deunydd ychwanegol a allai helpu cydweithwyr yn yr Adran Adnoddau Naturiol a Bwyd wrth iddynt lunio ymateb ar ran Llywodraeth Cymru drwyddi draw.

### ***Cyffredinol***

#### ***1. A ddylai fod gan yr UE gymhwysedd am amaethyddiaeth ac iechyd planhigion?***

Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn dibynnu ar ble y teimlir mae'r cydbwysedd mantais o dan Cwestiwn 2 yn gorwedd.

Roedd llawer o'r drafodaeth yn seminar Defra ym Mharc Cathays ar 3ydd Rhagfyr yn troi o gwmpas y ffaith fod cymaint o gyllideb y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) – yn y Deyrnas Unedig (DU) o leiaf – yn canolbwyntio ar Golofn 1. O safbwynt amgylcheddol, mae'n ymddangos felly y byddai'n well efallai pe bai gan y DU gymhwysedd llawn ym maes amaethyddiaeth fel bod modd dyrannu mwy o arian i Golofn 2. Ar y llaw arall, gallai cymhwysedd i'r DU dros amaethyddiaeth olygu y byddai'r Trysorlys yn dyrannu llai i'r gyllideb amaethyddol yn ei chyfanrwydd – gyda'r canlyniadau y gallai unrhyw ddyraniad tebyg i Golofn 2 fod hyd yn oed yn llai nag ar hyn o bryd.....

Wrth geisio nodi anfanteision/manteision y ffordd y mae Cymhwysedd yr UE yn cael ei arddel, mae'n bwysig osgoi rhoi gormod o bwyslais ar elfennau penodol o'r ffordd y mae'r DU wedi dewis rhoi polisi'r UE ar waith yn y gorffennol. Er enghraifft, mae dyraniad Golofn 2 y DU yn gymharol fach o'i gymharu ag Aelod Wladwriaethau eraill am resymau hanesyddol pur yn gysylltiedig â'r ffordd y mae ad-daliad cyllideb y DU wedi gweithio. Hefyd, mae Llywodraethau'r DU yn dal i allu dewis gwneud amryw o bethau o fewn fframwaith cyffredinol cymhwysedd yr UE. Un enghraifft o hyn fyddai'r ffordd y mae gweddill gwariant y Cynllun Datblygu Gwledig ar fesurau o fath coedwigaeth yn wahanol o fewn gwledydd y DU o'u cymharu â Sweden, y Ffindir, Awstria ac ati.

Wrth ystyried a ddylai cymhwysedd orffwys gyda'r UE ai peidio, bydd yn bwysig ceisio ystyried sut sefyllfa y byddem ynnddi pe bai pethau'n groes i fel y maent. Yn arbennig, pa fath o bolisiau fyddai ar waith yn niffyg cymhwysedd UE? Byddai

cymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill y tu allan i'r UE, fel y Swistir, Norwy a Gwlad yr Iâ, yn bwrw goleuni. Yn arbennig, pa fath o fesurau cenedlaethol fyddai'n ofynnol pe bai rhaid i nwyddau amaethyddol y DU gyrraedd y safonau lles anifeiliaid a chynhyrchu bwyd a'r safonau amgylcheddol sy'n ofynnol er mwyn iddynt fynd i mewn i farchnad yr UE?

Wrth ymdrin â'r cwestiynau hyn byddai'n fuddiol mabwysiadu fframwaith dadansoddi llai dibynnol ar werth na'r fframwaith y mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn ei ddarparu. Gallai ffordd fwy cynhyrchiol o ystyried y lle gorau i leoli cymhwysedd olygu edrych ar gyfres o faterion (megis cefnogaeth i wneud amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol neu ddarparu rhagor o nwyddau cyhoeddus amgylcheddol) ac ystyried i ba raddau y mae cymhwysedd yr UE yn help neu'n rhwystr rhag gwireddu'r amcanion polisi. Byddai cyfuno'r mathau hyn o ddadansoddiadau yn ei gwneud yn bosibl edrych ar gwestiynau mwy cyffredinol, megis a ddylai fod gan yr UE gymhwysedd ai peidio.....

Yn olaf, o edrych ar gymhwysedd yr UE ym maes amaethyddiaeth ar ei ben ei hun, ar wahân i faterion eraill, mae perygl y caiff ystyriaethau gwleidyddol ac economaidd ehangach eu hesgeuluso. Er enghraifft, weithiau gall amaethyddiaeth fod yn degan i raddau yn ystod trafodaethau Sefydliad Masnach y Byd, o leiaf o safbwynt yr UE<sup>1</sup>. Mae ffeirio mynediad i America Ladin i farchnadoedd amaethyddol yr UE yn gyfnewid am fwy o fynediad i Ewrop at y sectorau gwasanaeth a gweithgynhyrchu mewn blociau masnachu eraill yn debygol o fod yn fantais i economi'r UE drwyddi draw, hyd yn oed os yw'n ymddangos fel anfantais o'i ystyried o safbwynt amaethyddiaeth yn unig. O safbwynt y DU, mae enillion "strategol" o'r fath yn debygol o fod yn llawer anoddach eu hennill yn absenoldeb y safonau cyffredin a'r fframwaith negodi ehangach y mae'r PAC yn eu darparu.

### ***Manteision ac anfanteision***

## ***2. Pa dystiolaeth sydd yna fod y ffordd y mae'r UE yn ymdrin ag amaethyddiaeth:***

### ***i. yn fanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?***

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn darparu gwerth ychwanegol drwy alluogi'r DU i fod yn rhan o floc negodi mwy o ran safonau cynhyrchu masnach e.e. trafodaethau byd-eang fel Sefydliad Masnach y Byd a'r rhai'n ymwneud â thargedau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn ogystal â thrafodaethau masnach dwyochrog fel Mercosur.

Mae cymryd rhan yn y PAC yn sicrhau bod fframwaith rheoleiddio a chymhellion cyffredin ar waith ar draws yr UE gyfan. Mae "cae chwarae gwastad" o'r fath yn help i leihau'r rhwystrau rhag masnachu. Er enghraifft, mae fframwaith cyffredin ar gyfer trawsgydymffurfio wedi helpu i leihau'r argraff y câi ffermwyr mewn gwahanol rannau o'r UE eu trin yn wahanol o ran y safonau y byddai angen iddynt eu cyrraedd a'r cosbau y gallent eu hwynebu pe na baent yn cydymffurfio. Mae safonau cyffredin ar lefel yr UE yn help i osgoi'r angen i ddyfeisio safonau cynhyrchu ar wahân i'r DU a fyddai'n dal yn dderbyniol i bartneriaid masnachu yn yr UE.

Mae fframwaith Ewropeaidd cyffredin yn sicrhau bod y sectorau amaethyddol ym mhob Aelod Wladwriaeth yn gallu manteisio ar ganlyniadau rhaglenni ymchwil ar draws yr UE gyfan (megis Horizon 2020) yn ogystal â systemau trosglwyddo

---

<sup>1</sup> Gweler: <http://www.iatp.org/news/back-to-the-future-with-the-wto-debacle>

gwybodaeth fel y rhai sy'n cael eu hyrwyddo bellach gan Rwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop a phrosesau Partneriaeth Arloesi Ewrop.

Mae dull gweithredu i'r UE gyfan yn help i sicrhau bod gwell ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion trawsffiniol sy'n codi yn sgil cynhyrchu amaethyddol, yn arbennig allyriadau nwyon tŷ gwydr a rheoli adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth<sup>2</sup>. Er nad yw'r materion trawsffiniol hyn i gyd yn berthnasol yng nghyd-destun economi ynys fel y DU, mae'r egwyddor gyffredinol o weithio mewn partneriaeth i gyrraedd amcanion cyffredin yn dal yn wir gan fod trefn o'r fath yn lleihau'r risg o ymddygiad "rhywbeth am ddim", lle mae un parti yn cyfrannu llai ond yn elwa o gyfraniadau a wneir gan eraill. Mae'r un dadleuon yn union yn cael eu defnyddio yn awr yng nghyd-destun datblygu dulliau cydweithredol o ymdrin â chontractau amaeth-amgylcheddol y DU.

Mae'r ffordd y mae'r UE yn ymdrin ag amaethyddiaeth yn rhan o drefn ehangach i bennu amcanion polisi sy'n help i sicrhau synergedd rhwng polisiau cynaliadwyedd a datblygu gwledig a pholisiau amgylcheddol. Drwy gyfrannu at fwy o gydlyniant ar lefel yr UE, mae polisi amaethyddol yn help i greu gwell marchnad i ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau yn y DU.

### ***i. yn anfanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?***

Mae modd dadlau bod yr hyn a elwir yn "gae chwarae gwastad" o ran trefn gyffredin i ymdrin â rheoleiddio a chymhellion yn gallu bod yn llawer llai gwastad nag a dybiwyd..... A chadw mewn cof fod Colofn 1 a Cholofn 2 wedi cael eu cymhwyso mewn ffyrdd gwahanol iawn ar draws yr UE, mae'n bosibl iawn y byddai busnesau amaethyddol wedi dangos mwy o duedd i symud i rai aelod wladwriaethau yn lle eraill pe baent yn gallu symud yn haws (ac yn gallu troi asedau'n gyfalaf yn gyflymach). Ar y llaw arall, gellir gweld bod y ffaith fod y PAC yn offeryn mor hyblyg erbyn hyn hefyd yn arwain at fanteision cenedlaethol yn ogystal ag anfanteision.....

Dim ond pe bai'n bosibl penderfynu pa fath o bolisi amaethyddol fyddai gan y DU efallai yn niffyg cymhwysedd UE y mae'n gwneud synnwyr inni edrych ar gostau'r PAC drwyddynt draw er mwyn asesu'r effaith ar economi'r DU a chartrefi'r DU, h.y. i ba raddau y byddai cymorth marchnad, taliadau uniongyrchol a rhaglenni datblygu gwledig ar gael o fewn fframwaith polisi i'r DU? Yn arbennig, byddai angen nifer fawr o safonau iechyd a lles anifeiliaid i'r DU er mwyn sicrhau bod gan gynnyrch y DU yr un lefel o fynediad at bartneriaid masnachu mawr ag sydd ganddo yn awr. Byddai negodi safonau cyffredin i'r DU sy'n dderbyniol i bob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn golygu lefel bellach o gymhlethdod.

### ***3. Ydych chi'n meddwl y byddai gallu'r DU i hyrwyddo sector bwyd a ffermio cystadleuol yn elwa o fwy o weithredu gan yr UE, neu lai? Rhowch dystiolaeth neu enghreifftiau i egluro'ch pwynt.***

Dim sylw.

---

<sup>2</sup> Mae'r cysyniad o "Werth Ychwanegol yr UE" mewn perthynas â'r PAC a pholisiau eraill yr UE wedi cael ei archwilio'n fanylach gan yr IEEP (Institute for European Environmental Policy). <http://www.ieep.eu/work-areas/agriculture-and-land-management/future-of-the-cap/2010/07/paper-3-developing-a-more-comprehensive-rationale-for-eu-funding-for-the-environment>

**4. I ba raddau y mae manteision mynediad i farchnad sengl yn gorbwyso'r risg i fiaddiogelwch y DU sy'n deilio o fasnachu rhydd mewn cynnyrch planhigion?**  
Dim sylw.

**5. Pa dystiolaeth sydd yna fod y cymhwysedd cyfredol dros bolisi coedwigaeth:**

**i. yn fanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?**

**ii. yn anfanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?**

Bydd CNC yn cyflwyno sylwadau ar wahân ar y materion hyn drwy'r tîm polisi Coedwigaeth yn yr Adran Adnoddau Naturiol a Bwyd.

**Ble ddylai penderfyniadau gael eu gwneud?**

**6. Sut o bosibl y câi buddiant cenedlaethol y DU ei wasanaethu'n well drwy i gamau yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac iechyd planhigion gael eu cymryd ar lefel lywodraethu wahanol – un ai yn ychwanegol at weithredu'r UE neu yn lle hynny? Er enghraifft, yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.**

O safbwynt amaethyddiaeth, gallai penderfynu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol olygu erydu'r cae chwarae gwastad o ran y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a chymhellion a chystadleurwydd cyffredinol rhai mathau o fusnesau. Er enghraifft, mae cymhwyso gwahanol fathau o linell sylfaen reoleiddiol (neu wahanol gosbau am ddiffyg cydymffurfio) yn creu'r posibilrwydd o ysgogi "ras i'r gwaelod" o ran y safonau lles anifeiliaid a rheolaeth amgylcheddol a gâi eu harddel. Er y gallai hyn arwain at rhai manteision cychwynnol o safbwynt cystadleurwydd, mae'r effeithiau tymor hwy yn llawer mwy tebygol o fod yn negyddol, a hynny'n rhannol oherwydd y bydd gofyn yn gynyddol i gynhyrchwyr Ewrop gystadlu o ran ansawdd ar lefel ryd-eang yn hytrach nag ar bris.

**7. Pa dystiolaeth sydd yna fod y cydbwysedd penderfynu rhwng Cyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop yn y meysydd y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â nhw:**

**i. yn fanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?**

**ii. yn anfanteisiol i fuddiant cenedlaethol y DU?**

O dan delerau Cytuniad Lisbon, mae gan Senedd Ewrop bellach bwerau cydbenderfynu mewn perthynas â diwygio'r PAC. O safbwynt ei sylwadau cyfredol, mae'n ymddangos bod Senedd Ewrop yn debygol o barhau i bwysleisio'r angen am daliadau uniongyrchol o dan Golofn 1. Mae hyn yn cyferbynnu â thrywydd blaenorol diwygio'r PAC, sef ceisio symud cyfran fwy o'r gyllideb i Golofn 2. Mae'n bosibl iawn fod cydnabod safbwynt Senedd Ewrop wedi denu'r Comisiynydd Ewropeaidd ar hyd y llwybr o geisio gwyrddu Colofn 1.

Ar ôl archwilio'r opsiynau gwyrddu amrywiol sydd ar gael bellach yng Ngholofn 1, mae'n ymddangos yn debygol bellach y bydd y rhan fwyaf o Lywodraethau'r DU yn rhoi mwy o bwyslais ar drosglwyddo arian i Golofn 2. Mae modd dadlau felly fod y cydbwysedd penderfynu cyfredol yn ffafrio cadw strwythur presennol y PAC (mewn termau bras) gan weithredu i arafu symudiadau tua at ddiwygio mwy radical. O dan amgylchiadau eraill, fodd bynnag, gallai'r duedd hon gael ei gweld fel mantais.....

**Y dimensiwn allanol**

**8. Mae cytundebau gyda gwledydd nad ydynt yn perthyn i'r UE (cytundebau masnach rydd amlochrog a dwyochrog) yn chwarae rhan o bwys yn**

**amaethyddiaeth y DU. Sut mae'r cytundebau hyn a rôl yr UE yn eu negodi yn help neu'n rhwystr i fuddiant cenedlaethol y DU?**

Y mater allweddol yw i ba raddau y byddai'r DU yn gallu negodi'n effeithiol fel un endid yng nghyd-destun y cytundebau masnachu amlochrog a dwyochrog niferus sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae risg sylweddol ynghlwm wrth negodi fel un endid ar ei ben ei hun ac mae'n debygol y byddai angen i'r DU sefydlu cynghreiriau newydd i sicrhau canlyniad boddhaol. Mae sefydlu cynghreiriau newydd fel hyn yn debygol o olygu gwneud mathau newydd o gonsesiynau.

Yn niffyg cymhwysedd UE, byddai nifer o reolau presennol sydd yn ôl pob golwg yn deillio o'r UE yn dal mewn grym. Er enghraifft, mae'r fformiwla "incwm a ildwyd plws costau" a ddefnyddir i gyfrifo'r taliadau amaeth-amgylcheddol yn rhan o Reoliad Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd, ond mewn realiti nid yw'r Rheoliad ond yn ailadrodd gofynion Blwch Gwyrdd Sefydliad Masnach y Byd.

**Marchnad sengl a thwf economaidd**

**9. Ac ystyried y Sefydliad Marchnad Gyffredin sengl:**

**i. Pa mor llwyddiannus yw'r trefniadau presennol o ran sefydlu'r cydbwysedd iawn rhwng y nod o gael cae chwarae gwastad a'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol a chenedlaethol?**

**ii. Sut fyddai modd eu gwella?**

Dim sylw

**10. Pa dystiolaeth sydd yna fod mynediad i farchnadoedd yr UE a chadw at safonau cyffredin o ran amaethyddiaeth, deunyddiau atgynhyrchu planhigion ac iechyd planhigion o fudd i ddefnyddwyr a busnesau'r DU, gartref a phan fyddant yn allforio dramor, neu'n rhwystr iddynt?**

Dim sylw

**11. Pa dystiolaeth y gallwch ei rhoi sy'n dangos effaith, neu ddiffyg effaith, polisiau cymorth biodanwydd yr UE ar farchnadoedd cynnyrch amaethyddol a phrisiau bwyd?**

Dim sylw

**Ariannu**

**12. I ba raddau y mae rheolau yn ymwneud â chymorth i ffermwyr a thyfwyr y DU drwy arian UE yn help neu'n rhwystr i'r DU rhag cyrraedd ei hamcanion i'r sector? Efallai y byddwch am ganolbwyntio'n benodol ar un neu ragor o'r meysydd hyn yn eich ateb (i) taliadau uniongyrchol (ii) sefydliad marchnad gyffredin sengl (iii) datblygu gwledig.**

Yn nhermau datblygu gwledig, un o'r problemau mwyaf yw bod y Comisiwn Ewropeaidd yn gwrthod trin rhai gweithgareddau fel rhai derbynol at ddibenion cydariannu oni bai fod modd eu gwirio mewn ffordd sy'n dderbynol i archwilwyr yr UE. Mae hyn yn peri i fesurau amaeth-amgylcheddol roi llawer mwy o bwyslais ar yr angen am weithgareddau amaethyddol mesuradwy yn hytrach nag ar yr angen am ganlyniadau amgylcheddol penodedig. Mae'r broses hon yn ei thro yn arwain at ragnodi mwy caeth, llai o hyblygrwydd a llai o sgôp i ddefnyddio gwybodaeth leol.

Mae pa un a fyddai cynyddu cymhwysedd yr Aelod Wladwriaeth yn arwain at welliant yn y maes hwn yn debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar agwedd archwilwyr cenedlaethol. Ffordd arall o weithredu fyddai ceisio newid natur y rheolau o'r tu mewn – a dysgu gwersi o brofiad Aelod Wladwriaethau eraill.

Mae gwahanol Lywodraethau'r DU yn rhedeg nifer o gynlluniau yn ymwneud ag amaethyddiaeth sy'n cael Cymorth Gwladwriaethol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu cytundebau rheoli ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n bosibl iawn y caiff cwmpas y cytundebau hyn ei ehangu o dan Fil yr Amgylchedd, sydd ar fin cael ei gyflwyno, fel eu bod yn cwmpasu ystod ehangach o sefyllfaoedd. Rhoddwyd hysbysiad am raglen cytundebau rheoli Cymru fel cymorth gwladwriaethol yn 1999 o dan ddarpariaethau amaeth-amgylcheddol a buddsoddi Canllawiau'r Gymuned ar Gymorth Gwladwriaethol yn y Sector Amaethyddol. Er y gallai newidiadau i Reoliadau'r CE olygu bod rhaid ailgyflwyno hysbysiad o dan y rheolau Cymorth Gwladwriaethol, mae unrhyw broses o'r fath yn debygol o fod lawer yn haws nag un sy'n golygu gorfod cytuno ar gyfres o reolau cymorth gwladwriaethol gyda phartneriaid masnachu eraill, a hynny fesul gwlad. Er y gallai fod yn bosibl osgoi trafodaethau felly ar sail rhyw fath o reol *de-minimis*, lle caiff rhai mathau o daliadau eu trin fel rhai esempt, gallai negodi rheol o'r fath ynddo'i hun gymryd llawer iawn o amser.

### ***Sialensiau a chyfleoedd i'r dyfodol***

#### ***13. Pa sialensiau a chyfleoedd i'r dyfodol fydd yn eich barn chi yn effeithio ar y sectorau sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn?***

Ymysg y sialensiau sy'n wynebu amaethyddiaeth o safbwynt amgylcheddol mae di-hysbyddu adnoddau ac amryw o broblemau sy'n cael eu hachosi gan newid yn yr hinsawdd, e.e digwyddiadau tywydd eithafol amlach a risg gynyddol o glefydau. Mae cryfhau'r amgylchedd yn rhan hanfodol o amaethyddiaeth gynaliadwy. Byrhoedlog fydd unrhyw gynnydd mewn cynhyrchiant yn y dyfodol os caiff y systemau naturiol y'i seilir arno eu diraddio drwy golli pridd, maetholion a bioamrywiaeth, a bod ansawdd dŵr hefyd yn gostwng.

Mae rhai cyfleoedd arwyddocaol yn dod i'r amlwg yn sgil yr angen i fabwysiadu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn proffidioldeb drwy wneud gwell defnydd o adnoddau prin (maetholion yn arbennig) yn ogystal â gwella'r gyfran o'r farchnad (er enghraifft, drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fel uned gynhyrchu). Mewn byd lle mae adnoddau'n crebachu, nid yw arferion amgylcheddol da a rheolaeth fusnes dda mwyach yn cael eu gweld fel dau beth croes i'w gilydd.

Ar lefel Ewropeaidd, mae maint y PAC yn debygol o barhau i grebachu wrth i'r Aelod Wladwriaethau gwtogi maint eu cyfraniadau i gyllideb yr UE drwyddi draw. Ar yr un pryd, mae'r pwyslais o fewn cyllideb yr UE yn symud fwyfwy tuag at y Cronfeydd Strwythurol, mewn cydnabyddiaeth o Strategaeth 2020 yr UE. Mae trydedd her gyllidebol yn debygol o godi o ganlyniad i gytundebau masnach byd-eang a dwyochrog sydd wedi'u bwriadu i alluogi diwydiannau gwasanaeth a gweithgynhyrchu Ewrop i dreiddio mwy i farchnadoedd yr Unol Daleithiau, America Ladin a'r Dwyrain Pell.

Mae'n debygol bellach y bydd cyfuniad o sialensiau cyllidebol ac amgylcheddol yn gyrru gogwydd marchnadoedd yn gynyddol yn y sector amaethyddol. Yn yr UE, mae Cynlluniau Datblygu Gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol yn debygol o ddod yn bwysicach – yn rhannol fel mesur trosiannol (yn helpu busnesau a chymunedau

gwledig i ymdopi â newid) ac yn rhannol fel ffordd o gywiro canlyniadau methiant marchnadoedd, yn arbennig o ran yr angen i wella ansawdd amgylcheddol.

#### **14. Beth yw'r cydbwysedd iawn rhwng gweithredu ar lefel Aelod Wladwriaeth, lefel yr UE a lefel ryngwladol wrth ymdrin â sialensiau a chyfleoedd?**

Mae fframwaith ar lefel yr UE yn darparu amodau addas ar gyfer negodi safonau cynhyrchu a rhwystrau tariff ar lefel ryngwladol yn ogystal â sicrhau bod maes chwarae gwastad yn bodoli o ran masnach rhwng Aelod Wladwriaethau. Byddai mwy o ffocws ar wireddu canlyniadau polisi y cytunwyd arnynt (yn hytrach na cheisio pennu rheolau archwilio sy'n mynd yn fwy caeth drwy'r amser) yn galluogi gwahanol Aelod Wladwriaethau i gynaeafu manteision cydweithredu ond, ar yr un pryd, i gadw'r hyblygrwydd i ddylunio'r cynlluniau cymorth sy'n fwyaf addas i'r amodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Gallai canlyniadau cael gwared â chymhwysedd yr UE ym maes amaethyddiaeth fod yn ddramatig, yn enwedig pe bai hyn yn arwain at ddatgymalu cymorth ariannol yn llwyr. Mae'r effeithiau mwyaf yn sgil newid o'r fath yn debygol o gael eu teimlo yn yr ardaloedd hynny'n sy'n lleiaf abl i fabwysiadu modelau economaidd amgen. Er enghraifft, awgrymodd astudiaeth ddiweddar o ffermwyr yn rhanbarthau Canol Ffrainc a'r Midi-Pyrenees y byddai tua 21% o'r rhai a ymatebodd yn rhoi'r gorau i ffermio yn gyfan gwbl pe na bai cymorth PAC i'w gael. Er ei bod yn ymddangos efallai fod cymhorthdal yn amharu ar gystadleurwydd amaethyddol, yn yr ardaloedd hynny lle mae cyfleoedd economaidd eraill yn brin mae'n cyfrannu at gynnal y màs poblogaeth critigol sy'n angenrheidiol er mwyn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Os ceir toriadau dramatig yn y patrymau cymorth presennol, efallai felly y byddai angen sefydlu rhaglenni trosiannol penodol law yn llaw â hynny ynghyd â phwyslais cryf ar ddatblygu cyfleoedd oddi ar y fferm<sup>3</sup>.



Ceri Davies  
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio  
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning  
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales  
Ffôn/Tel: (029) 20466045  
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865  
E-bost/E-mail: [ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk)

---

<sup>3</sup> Latruffe, L, Depuy, A a Desjeux Y, What would farmers strategies be in a no-CAP situation? An illustration from two regions in France. Journal of Rural Studies 32 (2013) 10-25